**Atodiad 2**

# Ymatebion o Ymgynghoriad WESP wedi'u crynhoi

## Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd

Roedd y consensws cyffredin ar draws yr ymgynghoriad yn croesawu bwriad ac ymrwymiad y Cyngor i gefnogi'r gwaith o ddatblygu, ehangu, a hyrwyddo darpariaeth ar gyfer addysg Gymraeg yn y ddinas.

Roedd y mwyafrif o ymatebion yn ymwneud â sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg digonol ledled y ddinas ar bob cam, yn enwedig mewn perthynas â'r CDLI yn ogystal â sicrhau bod cynlluniau wedi'u creu ar gyfer darpariaeth uwchradd o fewn hyd oes y WESP a gwella'r ddarpariaeth ADY yn y sector cyfrwng Cymraeg. Crybwyllwyd nifer o ddiffygion o'r adroddiad gan gynnwys pwyslais y cynllun ar gamau gwella yn hytrach na disgrifio datblygiadau diweddar.

O ganlyniad i'r ymgynghoriad mae datganiad o fwriad wedi'i ychwanegu a'r weledigaeth wedi'i chryfhau i ddarlunio uchelgais y Cyngor i ddatblygu'r iaith Gymraeg yn y ddinas.

*(Mae'r ymatebion a dderbyniwyd wedi'u crynhoi isod mewn italig).*

**Canlyniad 1: Mwy o blant 7 oed yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg**

### 1.1 Darpariaeth Ychwanegol o Addysg Cyfrwng Cymraeg

***Ymatebion o'r Ymgynghoriad***

> *Nododd nifer sylweddol o randdeiliaid yr angen i sicrhau bod capasiti addas yn y sectorau cyn ysgol, cynradd ac uwchradd. Amlygodd ymatebwyr yr angen i gynnwys cynlluniau ar gyfer darpariaeth ychwanegol, yn ogystal â'r cynlluniau cymeradwy ar gyfer Ysgol Hamadryad ac Ysgol Glan Morfa, yn WESP 2017-2020. Fe wnaeth ymatebwyr hefyd gynnwys awgrymiadau penodol ar gyfer cynlluniau yn cynnwys ysgolion unigol.*

**Arfarniad o Safbwyntiau**

Bydd angen i unrhyw fuddsoddiad cyfalaf, ar gyfer ehangu neu greu ysgolion newydd, gael ei fodloni o fewn y cyllid ar gyfer rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif Llywodraeth Cymru. Mae Caerdydd wrthi'n darparu cynlluniau a nodwyd fel blaenoriaethau i'w cynnwys o fewn Rhaglen Band A Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae Caerdydd wedi ymrwymo'r holl gyllid cyfalaf yn llawn o fewn Band A.

Band B yw'r cam cyllid nesaf ar gyfer buddsoddiad ysgolion a bydd yn rhedeg o 2019 - 2024. Mae Caerdydd yn dechrau ymchwilio blaenoriaethau ar gyfer Rhaglen Band B yr Awdurdod Lleol. Bydd y broses dadansoddi anghenion a chynllunio ar gyfer Rhaglen Band B yn amlygu blaenoriaethau a phwysau ledled y ddinas.

Bydd yr holl dystiolaeth ansoddol a meintiol, gan gynnwys awgrymiadau penodol trwy'r broses hon, yn sail i'r dadansoddiad anghenion parhaus ar gyfer Band B. Mae'r Grŵp Atgyfeirio Rhanddeiliaid wedi'i greu i sicrhau bod safbwyntiau rhanddeiliaid yn cael eu hystyried yn ystod proses dadansoddi anghenion Band B.

#### 1.1.1 Darpariaeth Cyn Ysgol

***Ymatebion o'r Ymgynghoriad***

> *Roedd ymatebion yn nodi bod darpariaeth ar gyfer blynyddoedd cynnar yn hanfodol a bod angen cynyddu gofal plant a darpariaeth feithrin Cymraeg, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar nifer y plant sy'n cyrchu addysg gynradd cyfrwng Cymraeg. Yn*

*ogystal â chynyddu nifer y lleoedd Dechrau'n Deg Cymraeg i sicrhau mynediad i leoedd Cymraeg mewn ardaloedd difreintiedig.*

**Arfarniad o Safbwyntiau**

Mae Cyngor Dinas Caerdydd yn cydnabod bod ymgysylltu ar y cyfle cynharaf gyda phlant y blynyddoedd cynnar yn hanfodol i dyfu'r sector addysg Gymraeg. Trwy weithio mewn partneriaeth gyda Mudiad Meithrin mae'r Cyngor yn ceisio rhoi'r cyfle i bob plentyn yng Nghymru elwa o wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Mudiad Meithrin yn arbenigo mewn darpariaethau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Penododd Llywodraeth Cymru Mudiad Meithrin i ddarparu'r project Cymraeg i Blant. Diben y Rhaglen Cymraeg i Blant yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ymysg plant ifanc. Mae'r rhaglen Cymraeg i Blant yn atgyfnerthu gwaith Mudiad Meithrin i sicrhau bod llwybr clir o enedigaeth i oed ysgol ar gael yn Gymraeg. Mae Cymraeg i Blant a Mudiad Meithrin yn defnyddio Twitter, Facebook a gwefannau i gynyddu ymgysylltiad â rhieni ifanc trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Un o'r argymhellion o'r ymgynghoriad oedd adolygu ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael i gynorthwyo â chynnydd o ran marchnata targedig i rieni newydd (a darpar-rieni).

Mae gan staff ar draws Dechrau'n Deg ddull rhagweithiol iawn i annog teuluoedd i dderbyn darpariaeth Dechrau'n Deg Cymraeg. Mae bob aelod o staff yn derbyn DPP ar ddatblygiad iaith plant ac mae hyn yn cynnwys cyngor ar y manteision i ddatblygiad plant â dwyieithrwydd ac amlieithrwydd. Caiff staff eu hannog i hyrwyddo mynediad i wasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Bydd Ymwelydd Iechyd yn gofyn i'r holl deuluoedd Dechrau'n Deg, ar gam cynnar ac yna cyn derbyn gofal plant, os hoffent i'w plentyn fynychu gofal plant cyfrwng Cymraeg. Mae'r Ymwelwyr Iechyd hefyd yn annog cyfranogiad rhieni mewn clybiau Ti a Fi, i helpu rhieni i wneud eu dewisiadau ynghylch gofal plant, hefyd, mae grwpiau rhianta Dechrau'n Deg megis Aros a Chwarae a chyrsiau megis Chwarae Plant a Iaith a Chwarae, oll yn hyrwyddo dwyieithrwydd ac yn darparu adnoddau Cymraeg fel rhan o'r gwasanaeth.

Mae Dechrau'n Deg ar hyn o bryd yn prynu 108 o leoedd Cymraeg allan o gyfanswm o 1029. Mae hyn yn gyfwerth â 10% o'r holl leoedd gofal plant a gynigir i blant 2-3 oed cymwys. Mae 108 o leoedd sydd ar gael yn ateb galw rhieni Dechrau'n Deg sy'n dewis gofal plant cyfrwng Cymraeg. Lle bo bwlch mewn darpariaeth o fewn ardal benodol, mae Dechrau'n Deg a Thîm Cymorth Busnes Gofal Plant Cyngor Caerdydd yn rhagweithiol wrth gefnogi datblygiadau newydd.

***1.1.1.2 Cylch Meithrin ac Addysg Statudol***

***Ymatebion o'r Ymgynghoriad***

*Ceir hefyd sylwadau mewn perthynas â darparu Cylchoedd Meithrin mewn adeiladau addysg ac yn enwedig yr adeiladau Ysgol Hamadryad ac Ysgol Glan Morfa newydd.*

**Arfarniad o Safbwyntiau**

Fel y nodwyd ar dudalen 14 o WESP, bydd Cyngor Dinas Caerdydd a Mudiad Meithrin yn gweithio ynghyd i geisio'r gofynion gweithredol ac ymarferoldeb y trefniadau hyn a byddant yn cael eu hystyried yn y gwaith o gynllunio lleoedd cyfrwng Cymraeg ledled y ddinas ar gyfer y dyfodol.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar gyfer cynyddu ac adleoli Ysgol Glan Morfa rhwng 12 Hydref 2015 a 23 Tachwedd 2015, gan nodi bod y gynulleidfa ar gyfer lleoedd cynradd Cymraeg yn ardal Adamsdown a Sblot yn cynnwys darparwyr gofal plant lleol. Fel y nodwyd, mae Cylch Methrin (Cylch Meithrin Glan Morfa) yn gweithredu o Ysgol Glan Morfa ar hyn o bryd gan gynnig lleoedd meithrin nas cynhelir, gofal plant Dechrau'n Deg a gofal cofleidiol yn y cyfleuster meithrin yn ystod y prynhawn. Bwriedir i'r ysgol newydd ganiatáu i wasanaethau

Cylch Meithrin barhau i weithredu o safle'r ysgol ar ôl trosglwyddo i'r safle newydd, a arweinir gan y Corff Llywodraethu.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar gyfer sefydlu Ysgol Hamadryad rhwng 7 Medi 2015 a 19 Hydref, gan nodi bod y gynulleidfa ar gyfer lleoedd cynradd Cymraeg yn ardal Grangetown a Butetown yn cynnwys darparwyr gofal plant lleol. Yn dilyn hynny sefydlwyd Ysgol Hamadryad ym Medi 2016 ac mae wedi'i leoli dros dro yn safle Ysgol Gynradd Parc Ninian gan nodi bod gan y Corff Llywodraethu Ysgol gyfrifoldeb am y datblygiad pellach ac unrhyw ymholiadau dilynol. Wrth ddatblygu'r elfen adeilad ysgol newydd caiff unrhyw arferion da gan gynnwys gofal cofleidiol eu hystyried fel sy'n briodol.

Mae'r cynllun wedi'i gyflwyno i'r adran gynllunio, lle gellir gweld y dyluniad ar y ddolen ganlynol http://planning.cardiff.gov.uk/online-applications/applicationDetails.do?activeTab=summary&keyVal=_CARDIFF_DCAPR_118515 a chroesewir adborth trwy'r porthol hwn.

### 1.1.2 Darpariaeth Gynradd

***Ymatebion o'r Ymgynghoriad***

*Roedd ymatebion mewn perthynas â darpariaeth gynradd ychwanegol yn ymwneud yn bennaf â:*

*De-orllewin y ddinas a gorllewin y ddinas.*

*Arweiniodd yr ymateb gan Gymdeithas yr Iaith at greu deg ysgol gynradd Gymraeg newydd ledled y ddinas o fewn y pum mlynedd nesaf a chafwyd eu barn am yr addysg cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ledled y ddinas.*

**Arfarniad o Safbwyntiau**

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod mwy o alw na chyflenwad ar gyfer ysgolion Cymraeg yng ngorllewin y ddinas. Mae hyn yn cael ei fonitro ynghyd ag effaith darpariaeth ychwanegol o fis Medi 2017 yn yr Ysgol Hamadryad newydd ac ehangu Ysgol Glan Morfa. Mae'r holl faterion sy'n ymwneud â phatrymau cyflenwad a galw ar draws pob sector yn cael eu hystyried fel rhan o raglen cyfalaf Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif a byddant yn cynnwys mewnbwn gan gynrychiolwyr o'r sector Cymraeg (ysgolion a WEF) fel rhan o hyn.

#### *1.1.2.1 Niferoedd Derbyn Cyhoeddedig*

***Ymatebion o'r Ymgynghoriad***

*Nodwyd nad yw ehangiad "brys" Ysgol y Wern gan 15 lle ychwanegol i gynyddu'r nifer derbyn i 90 wedi bod trwy weithdrefn statudol llawn ond er gwaetha hyn ... mae'n dangos y cynnydd o ran y galw am leoedd Cymraeg yng ngogledd Caerdydd.*

***Arfarniad o Safbwyntiau***

Fel y nodwyd yng Nghod Sefydliad Ysgol Llywodraeth Cymru, mae ehangu safle ysgol, a fyddai'n cynyddu'r capasiti, yn bosibl ar gyfer cynyddu'r capasiti gan 25%, neu 200 o ddisgyblion ychwanegol o gymharu â chapasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol. Roedd ehangu Ysgol y Wern dros dro yn bodloni'r gofyniad hwn.

Aethpwyd dros y Nifer Derbyn Cyhoeddedig yn Ysgol y Wern dros dro i ganiatáu hyd at 15 lle ychwanegol yn y dosbarth derbyn ar gyfer 2016/17. Mae'r data poblogaeth cyn ysgol dinas eang o'r GIG ers 2014 yn awgrymu bod y niferoedd a oedd yn dechrau yn yr ysgol gynradd yn 2016 yn digwydd bod yn flwyddyn â phoblogaeth uchel yn ardal Llanisien / Thornhill, yn hytrach na'n dangos cynnydd parhaus o ran poblogaeth. Cynyddwyd y lleoedd Cymraeg a Saesneg i fodloni'r nifer cynyddol o blant yn yr ardal leol. Felly bydd y galw cyfatebol am leoedd cynradd Cymraeg yn nalgylch Ysgol y Wern yn cael ei adolygu, a bydd

cynigion newydd i gydbwyso'r cyflenwad a'r galw am leoedd yn cael eu cyflwyno lle bo angen.

#### *1.1.2.2 Capasiti*

### *Ymatebion o'r Ymgynghoriad*

*Nododd ymatebwyr bod y ganran capasiti dros ben o 2% ar gyfer y sector cynradd Cymraeg ledled y ddinas yn ganran fach, sy'n dangos nad yw llawer o rieni bob amser yn cael mynediad i addysg Gymraeg o fewn eu cymunedau. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Cynllun yn canolbwyntio ar ysgolion Cymraeg lle mae nifer y lleoedd gwag yn llai na 10%. Bydd twf y sector Cymraeg yn fwy cywir drwy edrych ar fynediad i'r dosbarth derbyn yn hytrach na phlant a phobl ifanc 4-18 oed. Er bod capasiti dros ben, yng Nghaerdydd, nid yw'n amlwg a yw'r lleoedd dros ben wedi'u lleoli yn yr ardaloedd cywir a dylai darpariaeth leol fod ar gael i blant lleol.*

### Arfarniad o Safbwyntiau

Er eglurder, roedd y ganran o leoedd dros ben ar fynediad i'r ysgol gynradd (derbyn) yn 2016 yn 2%, gyda 31 o leoedd ar gael ar fynediad i'r dosbarth derbyn mewn 9 ysgol ledled y ddinas (Hydref 2016). Fodd bynnag, roedd y ganran dros ben yn y sector cynradd Cymraeg yn 8% ym mis Medi 2016. Mae hyn yn cymharu â chapasiti dros ben o 5% yn y sector cynradd Saesneg. Bydd dau ddosbarth mynediad pellach ar gael ar fynediad i'r dosbarth derbyn yn y sector cynradd Cymraeg o fis Medi 2017. Mae'r Cyngor yn derbyn y byddai'r niferoedd derbyn ar gyfer y dosbarth derbyn yn cynnig dull arall i ddangos y twf yn y sector Cymraeg. O'r herwydd, caiff y data ei ychwanegu i'r ddogfen WESP.

Mae'r cyfeiriad o 10% dros ben yn un a gymerwyd o'r Cod Adrefnu Ysgolion: "Ni ddylai fel arfer fod angen darparu lleoedd ychwanegol mewn ysgolion pan fo eraill o'r un math â lleoedd dros ben o fewn pellter rhesymol. Fodd bynnag, gallai cynigion i gynyddu nifer y lleoedd mewn ymateb i'r galw am fath penodol o ddarpariaeth e.e. Cyfrwng Cymraeg, dal fod yn briodol; yn enwedig os yw darpariaeth effeithiol o leoedd ysgol wedi'i chynllunio ar gyfer ardal yr awdurdod lleol."

Nid oes targed Llywodraeth Leol i gyflenwi o leiaf 10% dros ben mewn unrhyw ddarpariaeth ysgol, ar lefel ysgol unigol nac ar sail ardal. Mae'n gyfeiriad at bwynt y dylai'r Awdurdod Lleol gymryd camau i leihau lleoedd dros ben.

Mae polisi Derbyn i Ysgolion y Cyngor a'r meini prawf pan fo mwy o alw na lleoedd yn cael ei briodoli ar sail daearyddol gan roi blaenoriaeth i'r rheiny sy'n byw o fewn dalgylch ysgol ac hefyd yn ystyried pellter o'r cyfeiriad ysgol i'r cartref. Mae hyn yn ceisio cynnal, lle y bo'n bosibl, plant yn mynychu ysgol leol.

### 1.1.3 Darpariaeth Uwchradd

### *Ymatebion o'r Ymgynghoriad*

*Mynegwyd barn gyffredin gan ymgynghoreion ac er eu bod yn cydnabod na fyddai angen darpariaeth uwchradd ychwanegol o fewn cyfnod y cynllun hwn, mae angen sicrhau bod proses gynllunio effeithiol ar gyfer ehangu darpariaeth uwchradd yn cael ei chynnal mewn modd amserol (cyn 2020). Awgrymwyd hefyd model 3-18 y gellid ei ystyried.*

### Arfarniad o Safbwyntiau

Mae'r Cyngor wedi nodi na fydd angen darpariaeth uwchradd ychwanegol tan ar ôl 2022. Mae hyn yn seiliedig ar 21DM angen addysg uwchradd Cymraeg yn 2020 a 2021, sydd dros y 20DM sydd ar gael ar hyn o bryd. Ni ddylai hyn greu problem, gan fod capasiti ar gael trwy

gynllunio cwricwlwm priodol yn unol â'r niferoedd yn yr ysgolion uwchradd Cymraeg yn y tymor byr.

Mae'r Cyngor yn ystyried y safbwyntiau i baratoi cynlluniau trylwyr ar gyfer darpariaeth uwchradd Cymraeg ar y cyfle cynharaf posibl a bydd yn sicrhau bod gwaith cynllunio Band B yn ystyried anghenion y sector Cymraeg. Bydd angen i Gaerdydd fabwysiadu dull creadigol yn gysylltiedig â buddsoddiad ysgolion wrth fynd ymlaen gan fod y Cyngor angen cyflawni'r gwerth gorau o'i adnoddau ariannol cyfyngedig, a fydd angen cynnwys ffyrdd newydd o weithio a datrysiadau arloesol.

### 1.2 Darpariaeth Bresennol ac Adnoddau Ariannol

***Ymatebion o'r Ymgynghoriad***

> *Mae'r cynllun yn crybwyll adeiladau a datblygiadau newydd yng Nghaerdydd ond dylai fod ffocws cadarn ar gyfleusterau presennol mewn ysgolion sefydledig i sicrhau bod cyfleusterau a darpariaeth bresennol yn addas i'r diben.*
>
> *Gofynnodd un Corff Llywodraethu Ysgol a fyddai mwy o adnoddau ariannol ar gyfer ysgolion Cymraeg ac roedd dau ymateb yn bryderus ynghylch yr arian yn cael ei ddyrannu'n gyfartal ac yn gynaliadwy rhwng ysgolion Cymraeg a Saesneg.*

**Arfarniad o Safbwyntiau**

Mae gan addysg gyllideb cyfalaf cynnal a chadw asedau blynyddol y gellir ei dyrannu i ymdrin â materion o fewn yr ystâd bresennol. Fel y nodwyd yng Nghynllun Rheoli Asedau Corfforaethol y Cyngor 2016/17, roedd gan ysgolion Caerdydd ôl-groniad cynnal a chadw o tua £71.5m (Ebrill 2016). Cyllideb cynnal a chadw blynyddol ar gyfer sefydliadau addysgol sy'n dod i gyfanswm o £18.760m dros y cyfnod pum mlynedd rhwng y blynyddoedd ariannol 2017/18 a 2021/22, yn unol â chymeradwyaeth o gyllideb 2017/18 y Cyngor. Mae'r dyraniad hwn ar gyfer gwaith adnewyddu ac addasrwydd asedau. Felly, mae angen blaenoriaethu gwaith mewn ysgolion presennol ledled y ddinas. Mae tîm Arlwyo Addysg Dinas Caerdydd hefyd yn asesu ceginau ysgolion ar raglen adnewyddu treigl trwy gynigion cyfalaf gyda gwariant cyfyngedig ar gael.

Bydd angen i unrhyw ddarpariaeth ychwanegol, ailsiapio darpariaeth ar raddfa fwy gael ei gynnwys yn rhaglen buddsoddi cyfalaf Band B; fodd bynnag, ni fydd y cyllid hwn yn cynnwys materion sy'n ymwneud â digonolrwydd ac amodau sy'n bodoli. I nodi, mae Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol a ddyrannwyd i'r Cyngor wedi lleihau gan 35% ers 2010/11. Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac wedi dyrannu adnoddau sylweddol i ariannu cynlluniau Band A yr 21ain Ganrif fel rhan o raglen fuddsoddi £164m. Bydd hefyd angen penderfynu ar fodel ariannol ymarferol ar gyfer unrhyw gynigion Band B a gyflwynir gan y Cyngor ar gyfer cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru o 2019/20.

Mae ysgolion presennol yn derbyn cyllid ar gyfer atgyweiriadau a chynnal a chadw o fewn eu cyllideb refeniw fformwla blynyddol a, gan bod hwn yn gyllid dirprwyedig, mae penderfyniadau o ran sut maen nhw'n gwario'r dyraniad hwn yn cael eu gwneud ar ddisgresiwn Corff Llywodraethu a Phennaeth bob ysgol. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod blaenoriaeth i nodi cyfrifoldebau clir mewn perthynas â rheoli ystâd eiddo ysgolion Caerdydd. Gall buddsoddiad Cyngor ychwanegol yn yr ysgolion presennol a holl flaenoriaethau eraill y Cyngor ond ddod o elw gwerthu tir neu o fenthyciad ychwanegol. Mae gan fenthyca oblygiadau o ran cyllidebau refeniw, ac mae angen iddo fod yn fforddiadwy, nawr yn ogystal ag yn y dyfodol.

Felly, bydd angen i uchelgeisiau a nodau o fewn y WESP gael eu rhannu gyda'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid i weithredu a chyflawni sy'n golygu dull partneriaeth o ran datblygu'r iaith Gymraeg ledled y ddinas.

Caiff cyllid refeniw a ddarperir i ysgolion ei ddosbarthu ar sail fformwla, a arweinir yn bennaf gan niferoedd disgyblion. Caiff unrhyw gynnydd o ran y swm cyffredinol o gyllid sydd ar gael i ysgolion dirprwyedig ei ddosbarthu rhwng ysgolion Cymraeg a Saesneg yn gyfartal. O'r herwydd, ni wneir unrhyw ddyraniadau ar wahân mewn perthynas â'r fenter hon; fodd bynnag, bydd ysgolion Cymraeg yn derbyn cyfran briodol o'r cynnydd cyffredinol o ran y cyllid sydd ar gael ar gyfer ysgolion dirprwyedig ar sail blynyddol.

### 1.3 Goblygiadau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a'r Galw Cymraeg

***Ymatebion o'r Ymgynghoriad***

*Mynegodd ystod o randdeiliaid pa mor bwysig yw'r angen i'r ddarpariaeth Gymraeg gael ei chynllunio o fewn y 22 dosbarth mynediad ychwanegol a fydd yn ofynnol o ganlyniad i'r ardaloedd CDLl. Nid yw mabwysiadu'r dull o ymateb i'r galw yn unig yn ddigon a dylid mabwysiadu'r cyfle i gymryd dull uchelgeisiol drwy gynnig dewis iaith teg ym mhob cymuned. Derbyniwyd cwestiynau a oedd yn gofyn sut oedd y 22 dosbarth mynediad ychwanegol wedi'u cyfrifo, pa ganran o'r ddarpariaeth fydd yn ddarpariaeth Gymraeg neu Saesneg, graddfeydd amser cysylltedig a ph'un a all y CDLl newid, gan effeithio ar y nifer o ddosbarthiadau mynediad ychwanegol sydd eu hangen.*

*Mynegwyd pryderon hefyd o ran na fydd ymateb i'r galw yn unig yn gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o greu 1m o siaradwyr erbyn 2050 a bod angen dull mwy rhagweithiol nid yn unig i ddiwallu'r galw ond hefyd i greu galw. Awgrymwyd bod angen ymchwil ac arolygon i ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer cynllunio'r galw. I gefnogi hyn, nododd nifer o ymatebwyr y byddai gallu olrhain disgyblion trwy'r system addysg sy'n cael gwrthod lle mewn addysg Gymraeg yn y lle cyntaf yn ddefnyddiol.*

**Arfarniad o Safbwyntiau**

Nid yw'n bosibl cwblhau'r prosesau statudol a fyddai'n ofynnol i sefydlu darpariaeth ysgol newydd o fewn oes y WESP (2017 - 2020). Yn ystod oes y WESP, 2017-2020, ni ddisgwylir i'r cyfanswm o ddisgyblion sy'n dechrau addysg (un ai cyfrwng Saesneg neu Gymraeg) o ddatblygiadau tai newydd, gan gynnwys Melin Trelái a Phlasdŵr, fod yn fwy na'r gostyngiad o ran y boblogaeth cyn ysgol o gymharu â niferoedd derbyn diweddar. Ceisir cyfraniadau datblygwyr lle na ellir bodloni'r galw am leoedd ysgol ychwanegol o fewn darpariaeth ysgol bresennol a bydd darpariaeth ychwanegol yn cael ei gyflwyno fel sy'n briodol. Bydd CTY yn parhau i fonitro dyddiadau a rhagamcaniadau datblygiadau tai a bydd yn rhoi ystyriaeth strategol ddyledus i'r rhain.

Mae'r fethodoleg a ffefrir gan y Cyngor ar gyfer rhagdybio'r galw am leoedd yn defnyddio data poblogaeth gwasanaeth iechyd cyn ysgol unigol i ragfynegi ar lefel dalgylch pob ysgol unigol gan ddefnyddio model goroesi safonol carfan ac ystyried y lleoedd a gymerwyd mewn ysgolion yn ddiweddar yn gymesur â hyn. Mae'r Gwasanaeth Addysg hefyd yn gweithio mewn partneriaeth agos â swyddogion Cynllunio Strategol i sicrhau bod ei fethodolegau ar gyfer rhagfynegi niferoedd disgyblion o ddatblygiadau tai newydd yn cael eu diwallu'n ddigonol.

Fodd bynnag, mae pob lle ysgol cymunedol, beth bynnag fo'r cyfrwng iaith ar agor i holl breswylwyr Caerdydd. Mae dewis rhieni yn cadarnhau'r ysgol a ffefrir, yn ogystal â'r cyfrwng iaith; lle bydd eu plant yn derbyn eu haddysg.

Mae'n rhaid i'r Cyngor ddangos y galw i sicrhau llwyddiant gydag unrhyw geisiadau cyllid (e.e. a106 neu fuddsoddiad cyfalaf ysgolion Llywodraeth Cymru).

Bydd Cyngor Dinas Caerdydd yn ogystal â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn trafod gweithredu asesiad galw cyfrwng Cymraeg ymhellach gyda Llywodraeth Cymru. Mae Prifysgol Caerdydd hefyd wedi amlygu yr hoffent wneud ymchwil o ran galw, a'r achosion a'r rhesymau dros ddewis ac argaeledd cyfrwng Cymraeg felly mae posibiliad o ymuno â hwy i

ymchwilio ymhellach yn ogystal â defnyddio panel Holi Caerdydd a weinyddir gan Ganolfan Ymchwil Caerdydd i gynorthwyo â chynllunio'r continwm cyfrwng Cymraeg.

Bydd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i ddyfeisio cynllun gweithredu a fydd yn darparu ymyraethau i gyflawni'r uchelgeisiau a nodir yn y strategaeth.

### 1.4 Hyrwyddo Cyfrwng Cymraeg

***Ymatebion o'r Ymgynghoriad***

> *Mynegodd nifer o ymatebwyr gredoau cryf bod angen mwy o ymdrech i wella gwybodaeth o ran yr hyn y mae addysg cyfrwng Cymraeg yn ei gynnig a chynyddu'r gwaith o hyrwyddo'r iaith Gymraeg a darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg sydd ar gael; yn enwedig ar y cyfle cynharaf ac o fewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae angen mwy o wybodaeth yn y llyfryn 'Derbyn i Ysgolion', sydd â 114 o dudalennau a llai na hanner tudalen ar addysg cyfrwng Cymraeg (ac eithrio ar gyfer y rhestr o ysgolion ar ddiwedd y ddogfen). Nododd ymatebwyr fod gan nifer sylweddol o ddarpar-rieni gamsyniadau ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg.*

**Arfarniad o Safbwyntiau**

Mae'r Cyngor eisoes yn gweithio gyda nifer o bartneriaid i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg a gofal plant cyn ysgol cyfrwng Cymraeg. Cafodd darpariaeth ymdrochi Cymraeg ei chynnwys am y tro cyntaf yn llyfryn derbyn i ysgolion 2017/18. Mae'r tîm addysg yn cydnabod y gall y Llyfryn Gwybodaeth i Ysgolion elwa o gael adran cyfrwng Cymraeg estynedig a chynigir y dylid sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried y ffordd orau o gael gwared ar fythau am gyrchu addysg cyfrwng Cymraeg a chynnwys mwy o wybodaeth am y prosesau sy'n gysylltiedig â chyrchu darpariaeth y Ganolfan Ymdrochi Cymraeg yn Llyfryn Derbyn i Ysgolion 2018/19. Bydd Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd, dan eu cylch gwaith i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg, yn adolygu drafft o'r testun cyn ei gynnwys yn y ddogfen derfynol.

### 1.5 Data a Rhagfynegiadau

***Ymatebion o'r Ymgynghoriad***

> *Fe wnaeth nifer o ymatebwyr gwestiynu'r fethodoleg ar gyfer y rhagfynegiadau, y sail ar gyfer yr ystadegau a pham bod rhai rhagfynegiadau yn ymddangos fel petaent yn rhy isel. Yn benodol, mynegwyd pryder mewn y nifer o ymatebion mewn perthynas â'r targed ar gyfer mwy o blant saith oed. Dywedodd nifer o ymatebwyr nad oedd y targedau yn ddigon uchelgeisiol neu heriol, eu bod yn siomedig ac yn amcangyfrif rhy isel o lawer. Mae angen i'r rhagfynegiadau a wneir gan y Cyngor adlewyrchu'r darlun cywir.*

**Arfarniad o Safbwyntiau**

Mae rhagfynegiadau seiliedig ar ardal yn dilyn model goroesi carfan safonol sy'n ystyried data poblogaeth (a gyflenwir yn flynyddol gan y GIG) a data PLASC sy'n cael ei ddarparu a'i wirio gan ysgolion yn flynyddol. Mae'r set data PLASC a wiriwyd yn fwyaf diweddar ar gael i'w ddadansoddi o Ionawr 2016 pan gafodd 690 o ddisgyblion eu cofrestru mewn dosbarthiadau derbyn Cymraeg.

Yn y blynyddoedd diweddar, mae nifer y disgyblion sy'n dechrau addysg cyfrwng Cymraeg ledled y ddinas wedi cynyddu'n gyson ac yn gymesur â'r twf mewn poblogaeth. Mae data GIG yn nodi y bydd llai o blant yn cael eu derbyn i addysg gynradd o 2017 i 2019, o gymharu â'r brig yn 2016, ac felly mae rhagfynegiadau sy'n dangos twf o ran canran (ond gostyngiad mewn niferoedd) yn adlewyrchu'r tuedd hwn o ran poblogaeth.

Mae WESP Caerdydd yn nodi gwaelodlin o ran sut, pe bai tueddiadau a'r nifer cyfatebol sy'n derbyn lleoedd yn dilyn patrymau diweddar, y byddai'r nifer sy'n derbyn lleoedd ym mlwyddyn 2, h.y. rhagfynegiadau, yn cynyddu i 16.4% erbyn 2019/20 ac i 16.7% erbyn 2022/23. Fodd bynnag, mae colofn ychwanegol wedi'i hychwanegu sy'n adlewyrchu targedau ar gyfer disgyblion blwyddyn 2.

Mae'r targedau ar gyfer disgyblion a asesir yn saith oed fel arfer wedi'u cyfyngu gan fformat y WESP i'r cyfnod tair blynedd 2017-2020. Yn amlwg, ni all y Cyngor ddylanwadu llawer ar rieni i addysgu plant trwy gyfrwng y Gymraeg pan fo disgyblion eisoes wedi dechrau ar addysg llawn amser statudol, ac eithrio targedu disgyblion sydd wedi cyflwyno cais trosglwyddo ysgol a gweithio'n agos gydag ysgolion i leihau nifer y disgyblion sy'n dewis trosglwyddo.

Byddai disgyblion a aseswyd yn saith oed yn 2017-2018 a 2018-19 wedi dechrau addysg gynradd ym mis Medi 2015 a 2016 yn y drefn honno; mae disgyblion a aseswyd yn 7 oed yn 2019-2020 wedi cyflwyno ffurflenni cais i ddechrau addysg gynradd ym mis Medi 2017. Byddai prosesau statudol a allai fod wedi'u cymryd i gynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael ar gyfer y garfan o blant 7 oed yn 2019/20, megis yr ymgynghoriad ar drefniadau derbyn a'r penderfyniad arnynt, wedi'u cwblhau. Felly mae'r WESP yn gallu rhoi manylion mesurau a gymerwyd eisoes i gynyddu nifer y plant saith oed sydd wedi dechrau addysg yn ddiweddar, a'r rheiny a fyddai'n cofrestru ym mis Medi 2017 a 2018.

Mae WESP Caerdydd yn gosod targedau uchelgeisiol sy'n sylweddol fwy na'r nifer a ragfynegwyd, gan 5 disgybl yn 2020/21, gan 29 disgybl yn 2021/22 a chan 67 disgybl yn 2022/23.

### 1.6 Hyfforddiant i Staff Rheng Flaen

***Ymatebion o'r Ymgynghoriad***

> *Staff rheng flaen e.e. Dylai Ymwelwyr Iechyd, bydwragedd, Gwybodaeth i Deuluoedd gael y cyfle i gael eu hyfforddi o ran manteision addysg cyfrwng Cymraeg a manteision dwyieithrwydd.*

**Arfarniad o Safbwyntiau**

Gwneir llawer o waith trwy weithio â'r sector gofal plant i annog y gweithlu i ddewis CPD iaith Gymraeg a chyrsiau cyfreithiol a rheoliadol i annog y farchnad. Yn y cyd-destun fodd bynnag, mae tîm Canolfan Achrededig a Gweithlu Gofal Plant y Cyngor wedi cael problemau yn llenwi'r cyrsiau Cymraeg sydd wedi cael eu cynnig i'r sector.

Yn ystod 2016/17 cynigiodd y tîm 4 sesiwn blas ar y Gymraeg trwy Campiaith, roedd rhaid canslo 2 gan nad oedd digon wedi archebu. O'r 2 gwrs a gynhaliwyd, dim ond 19 o'r 40 lle oedd ar gael a lenwyd. Roedd y tîm hefyd yn cynnig cwrs Iaith Gymraeg Pellach 1 diwrnod, gan fod yr adborth gan ddarparwyr gofal plant yn nodi eu bod eisiau mwy na sesiwn ragarweiniol. Fodd bynnag, roedd rhaid canslo'r cwrs gan mai dim ond 3 lle a gafodd eu harchebu.

Trefnodd y tîm ddau gwrs Cyfreithiol a Rheoliadol (2 x Hylendid Bwyd a 2 x Deall Amddiffyn Plant) trwy gyfrwng y Gymraeg, fodd bynnag cafodd bob un o'r cyrsiau hyn eu canslo gan mai dim ond 1 lle a archebwyd.

Ymddengys er bod yr ymgynghoriad anghenion hyfforddiant blynyddol ar gyfer y sector yn dangos bod galw am gyrsiau iaith Gymraeg neu gyrsiau a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg, pan ddaw'r adeg i archebu a thalu am le ar gwrs o'r fath, nid yw'r galw yno. Anfonir yr ymgynghoriad i'r gweithlu gofal plant yng Nghaerdydd ac eleni, mae'r ymateb a dderbyniwyd yn dangos mai dim ond 13% o ymatebwyr a nododd y byddent yn mynychu hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg.

O ganlyniad i'r wybodaeth hon, mae'r Cyngor yn cynnig nodi rhesymau posibl dros y diffyg diddordeb a rhoi camau mwy penodol ar waith.

Bydd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £3m ychwanegol yn y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg i wella a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Mae'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg yn gyfrifol am ddarparu arweiniad strategol i'r sector Cymraeg i Oedolion. Mae'r rôl hon yn cynnwys datblygu a darparu cyrsiau Cymraeg i Oedolion yn y gweithle, yn enwedig i gyrff sy'n dod dan y gyfundrefn safonau iaith. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos â'r Ganolfan Genedlaethol i ddatblygu cynllun ar gyfer yr arian ychwanegol a glustnodwyd yng nghytundeb cyllideb 2017-18 gyda Plaid Cymru. Mae'r Cynllun yn cynnwys pump llinyn ac mae un llinyn yn ymwneud yn benodol â chyrsiau ar gyfer gweithle'r blynyddoedd cynnar 'Cymraeg Cynnar/Early Welsh'. Bydd y tîm Cyrhaeddiad, gan gynnwys y Gwasanaethau Gofal Plant, yn cynyddu'r llinyn ar gyfer cyrsiau gweithlu'r blynyddoedd cynnar ar ran y Cyngor drwy gyfeirio a hyrwyddo cyfleoedd Cymraeg Cynnar sydd ar gael trwy'r cynllun 'Cymraeg Gwaith'.

**1.7 Dalgylchoedd**

***Ymatebion o'r Ymgynghoriad***

> *Cafwyd ystod o ymatebion a oedd yn pwysleisio'r angen am ddalgylch ar gyfer Ysgol Hamadryad a'r angen am ymgynghoriad cynnar gyda rhanddeiliaid os bydd unrhyw newidiadau i drefniadau dalgylchoedd yn y ddinas.*

**Arfarniad o Safbwyntiau**

Er mwyn sefydlu pob dalgylch ysgol unigol mae'n rhaid i'r Cyngor gynnal ymgynghoriad ffurfiol. Mae'r Cyngor, yn ei rôl fel awdurdod derbyn, yn ymgynghori ag ysgolion yn flynyddol mewn perthynas â threfniadau derbyn i ysgolion, gan gynnwys dalgylchoedd ysgolion.

Ni all unrhyw newidiadau i drefniadau derbyn i ysgolion megis diwygio dalgylchoedd gael eu rhoi ar waith tan fis Medi 2019 ar y cynharaf, yn unol â gofynion Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru. Disgwylir, yn dilyn dadansoddiad pellach o'r lleoedd derbyn a lenwyd ym Medi 2016 a 2017, y byddai unrhyw newidiadau arfaethedig i ddalgylchoedd ysgolion yn cael eu hymgynghori arnynt yn gynnar yn 2018 neu 2019, i drefniadau gael eu rhoi ar waith ym Medi 2019 neu Medi 2020.

**1.8 Cymunedau Amlddiwylliannol ac Addysg Cyfrwng Cymraeg**

***Ymatebion o'r Ymgynghoriad***

> *Roedd ymatebwyr yn annog y Cyngor i gyfeirio at nifer y plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sy'n cyrchu addysg cyfrwng Cymraeg gan nodi bod cyfranogiad mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn is mewn cymuneau ethnig.*

**Arfarniad o Safbwyntiau**

Mae datganiad o fwriad y Cyngor a gwerthoedd o fewn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (2017-2020) yn ymwneud â bod pob plentyn yn teimlo'n hyderus yn y Gymraeg gydag addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg ar gael i bawb a bod addysg Gymraeg yn gynhwysol. Mae rhieni ledled y ddinas yn gallu ymgeisio am leoedd ysgol cymunedol p'un a ydynt yn lleoedd Cymraeg neu Saesneg, a waeth beth fo'u cefndir ethnig.

Mae trosolwg o ystadegau yn dangos bod canran is o blant o gefndiroedd lleiafrifoedd sy'n manteisio ar addysg Gymraeg fodd bynnag i roi darlun llawnach, byddai'n rhaid gwneud ymchwil penodol i ddeall y darlun dinas-eang a'r nifer sy'n dewis addysg Gymraeg o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda RhAG, partneriaid Cymraeg gan gynnwys Menter Caerdydd, Mudiad Meithrin, Cyngor Ffoaduriaid Cymru ac aelodau eraill o'r gymuned ar broject a gefnogir gan gyllid Llywodraeth Cymru i ledaenu'r neges o addysg Gymraeg mewn cymunedau amlddiwylliannol, yn enwedig Butetown, i sefydlu Ysgol Hamadryad. Mae Gwasanaeth Ethnig a Theithwyr y Cyngor yn gweithredu fel cyswllt rhwng y project a theuluoedd a disgyblion. Yn dilyn trafodaethau gyda rhanddeiliaid, bydd y project yn cynhyrchu ffilm fer i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg. Wrth i boblogaeth y ddinas ddod yn fwy amrywiol, gallai'r ffilm hon ddod yn adnodd gwerthfawr ar gyfer cefnogi datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg mewn cymunedau amlddiwylliannol.

Mae'r Cyngor wedi gweithio'n agos â Chorff Llywodraethu Ysgol Hamadryad i sicrhau bod yr ysgol yn cael ei gweld fel dewis ystyrlon i'r cymunedau lleol. Mynychodd pennaeth a llywodraethwyr yr ysgol nifer o ddigwyddiadau cymunedol hefyd gyda'r nod o gyrraedd cymunedau amrywiol Butetown a Grangetown.

Mae Caerdydd hefyd yn gallu cynnig darpariaeth wych i newydd ddyfodiaid i'r ddinas ar ffurf uned drochi Gymraeg. Mae'r Uned Drochi Gymraeg yn darparu addysg iaith Gymraeg ddwys i alluogi plant i ddod yn ddigon rhugl i drosglwyddo i addysg mewn Ysgol Gymraeg.

## 1.9 Trafnidiaeth Dysgwyr

***Ymatebion o'r Ymgynghoriad***

> *Mynegodd ymatebwyr yr angen i sicrhau bod bob rhiant a bob plentyn yn cael dewis teg rhwng ysgolion Cymraeg a Saesneg. Roedd ymatebion eraill yn nodi angen i wahaniaethu rhwng ysgolion cymunedol Cymraeg ac ysgolion ffydd, oherwydd bod rhai rhieni dan yr argraff bod y meini prawf derbyn sy'n cynnwys y gallu i siarad Cymraeg yn cael eu hystyried wrth dderbyn plant i ysgolion Cymraeg yn yr un ffordd ag y mae amodau crefyddol yn berthnasol i brosesau derbyn mewn ysgolion ffydd.*
>
> *Cafwyd sylwadau ynghylch yr angen am fysus ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg i deithio i'w hysgolion uwchradd Cymraeg ac anghytundeb gyda'r geiriad yn yr adran Trafnidiaeth Dysgwyr "[...] Nid oes gofyniad statudol i Gyngor Caerdydd ddarparu trafnidiaeth am ddim i unrhyw ysgol Gymraeg...."*

**Arfarniad o Safbwyntiau**

Mae polisi trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol presennol Cyngor Caerdydd yn nodi bod 4 categori / math o'r ysgol briodol agosaf, sef:-

1. Yr Ysgol Gymunedol Saesneg agosaf
2. Yr Ysgol Gymunedol Gymraeg agosaf
3. Yr Ysgol yr Eglwys yng Nghymru agosaf
4. Yr Ysgol Gatholig agosaf

Darnau o'r Cod Canllaw Trafnidiaeth Teithwyr a gyhoeddwyd ym Mehefin 2014, datganiad cwestiynau cyffredin:-

**12. Ydyw'n ofyniad cyfreithiol i awdurdodau lleol ddarparu trafnidiaeth am ddim i ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg?**
Dan y ddeddfwriaeth trafnidiaeth ysgol bresennol, mae dysgwr yn gymwys i drafnidiaeth am ddim i ysgol Gymraeg os yw'r ysgol honno yn cael ei hystyried gan yr awdurdod lleol fel ysgol addas agosaf y dysgwr a bod y dysgwr yn diwallu'r meini prawf pellter sy'n benodol i'w hoedran. Mae disgyblion cynradd yn gymwys i drafnidiaeth am ddim os ydynt yn byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf tra bo disgyblion uwchradd yn gymwys i drafnidiaeth am ddim os ydynt yn byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf.

Mae Adran 1 – 1.40 yn nodi: gall rhieni a dysgwyr fynegi dewis am ysgol benodol, math penodol o ddarpariaeth iaith neu ysgol ffydd, ond nid yw'r Mesur yn rhoi hawliau i rieni a dysgwyr i drafnidiaeth am ddim i'w ysgol a neu leoliad o ddewis, oni bai bod yr awdurdod

lleol yn ystyried taw'r ysgol honno yw ysgol addas agosaf y dysgwr a bod y dysgwr yn diwallu'r meini prawf pellter.

**Canlyniad 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith o symud i'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd**

.

## 2.0 Cyfraddau trosglwyddo

***Ymatebion o'r Ymgynghoriad***

*Dylai Caerdydd fod yn uchelgeisiol a cheisio sicrhau cyfraddau trosglwyddo o 100% ar draws pob cyfnod a chynyddu cyfraddau trosglwyddo o Gylchoedd Meithrin lle ceir cyfraddau trosglwyddo isel. Pa gamau penodol fydd yr Awdurdod Lleol yn eu cymryd i wella'r gyfradd drosglwyddo rhwng CA2 a CA3?*

**Arfarniad o Safbwyntiau**

Bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio gydag ysgolion i nodi grwpiau o ddisgyblion sy'n dewis trosglwyddo allan yn ystod addysg gynradd Cymraeg ac wrth bontio o ysgol gynradd i uwchradd. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod mwy o gyfathrebu rheolaidd yn digwydd gyda phenaethiaid i nodi trosglwyddiadau a'r rhesymau drostynt. Mae'r gyfradd trosglwyddo dinas-eang cyfartalog wedi cynyddu o 95% i 96%. Mae hyn oherwydd bod y Cyngor eisiau dangos uchelgais tra'n cydnabod bod gan boblogaeth y ddinas lefel uchel o symudedd a bod dewis rhieni yn agwedd bwysig o addysg disgybl, felly'n gosod targed uchelgeisiol, ond realistig fel y gofynnwyd gan Lywodraeth Cymru.

Roedd Cyfraddau trosglwyddo o'r Cylchoedd yn 86% yn 2013, 85% yn 2014 a 84% yn 2015. Mae'r cyfraddau trosglwyddo o Cylch Meithrin Grangetown a'r Bae wedi bod fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 2013-14 | 19% |
| 2014-15 | 50% |
| 2015-16 | 73% |

Mae'r data uchod yn dangos bod y gyfradd trosglwyddo o Cylch Meithrin Grangetown a'r Bae wedi cynyddu'n sylweddol dros y 3 blynedd diwethaf. Fodd bynnag, bydd Mudiad Meithrin yn adolygu'r cyfraddau trosglwyddo mewn mwy o fanylder i ddeall pam bod y cyfraddau yn gostwng a byddant yn gweithio gyda'r Tîm Cymorth Busnes Gofal Plant i barhau i wella'r cyfraddau trosglwyddo o Grangetown a'r Bae i gyd-fynd â chyrhaeddiad Ysgol Hamadryad. Gallai Mudiad Meithrin hefyd edrych ar Gylchoedd gyda chyfraddau trosglwyddo uwch a chreu partneriaeth gyda Chylchoedd sydd â chyfraddau is i weld os gellir dysgu gwersi i adeiladu llwyddiannau a chynaladwyedd tra'n sicrhau bod pob cylch yn ddewis ystyrlon i gymunedau.

Bydd Cyngor Dinas Caerdydd yn ymchwilio i dueddiadau mewn cyfraddau trosglwyddo rhwng gwahanol oedrannau a chyfnodau'r continwm iaith Gymraeg. Bydd canlyniadau'r gwaith hwn yn arwain at gamau pellach fodd bynnag; mae'n rhy gynnar i ddweud beth gellid ei wneud, oherwydd bydd hyn yn dibynnu ar ganlyniadau'r ymchwiliadau. Mae'r Comisiynydd Iaith wedi rhoi gwybod bod tystiolaeth yn dangos y bydd canolbwyntio ar gryfhau addysg Gymraeg mewn un cyfnod allweddol yn aflwyddiannus o ran creu nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg newydd a rhugl. Yn hytrach, rhaid cryfhau darpariaeth Gymraeg o'r cychwyn cyntaf ac ym mhob un o'r cyfnodau allweddol dilynol er mwyn sicrhau bod nifer uwch o unigolion yn cwblhau siwrne gyfan o ddarpariaeth Gymraeg yn ystod eu gofal ac addysg. Caiff hyn ei ystyried wrth gynllunio camau pellach.

## 2.1 Trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn

***Ymatebion o'r Ymgynghoriad***

*Crybwyllwyd p'un a oedd y Cyngor yn rhagweithiol o ran cynnig darpariaeth Gymraeg gyda throsglwyddiadau yn ystod y flwyddyn.*

**Arfarniad o Safbwyntiau**

O ran trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn, bydd pob un sy'n cael gwrthod lle yn derbyn rhestr gyffredinol o leoedd sydd ar gael ym mhob ysgol Gymraeg a Saesneg sydd ag ond ychydig o leoedd ar gael a dywedir wrth ymgeiswyr y gallant ymgeisio am eu dewisiadau o'r rhestr. Ar gyfer ceisiadau yn ystod y flwyddyn, os bydd rhieni yn nodi eu bod yn ffafrio darpariaeth Gymraeg neu Saesneg bydd y tîm yn helpu gyda gwybodaeth ar ysgolion mewn perthynas â'r cyfrwng y maent wedi gofyn amdano. Os bydd rhieni yn dweud eu bod yn symud i Gaerdydd, bydd pob ysgol yn yr ardal leol sydd â lleoedd gwag yn cael eu hamlygu, beth bynnag fo'r cyfrwng iaith.

**2.2. Canolfan Trochi Gymraeg (CTG)**

***Ymatebion o'r Ymgynghoriad***

> *Dylai Cyngor Dinas Caerdydd gael eu canmol am sicrhau bod y ddarpariaeth hon yn bodoli a dylid croesawu'r pwyslais ar drochi cynnar, fodd bynnag, mae angen mwy o gyhoeddusrwydd am ei fodolaeth a sut i gael lle. Mae'r gyfradd drosglwyddo o 100% yn uchelgeisiol iawn.*

**Arfarniad o Safbwyntiau**

I gynorthwyo â chynllunio lleoedd ledled y ddinas, bydd y tîm derbyn i ysgolion yn gwella'r broses o rannu gwybodaeth gyda'r Ganolfan Drochi Gymraeg. Gall disgyblion o ledled y ddinas fynychu'r uned lle maent yn mynychu am dymor neu'n hirach roi sgiliau Cymraeg iddynt.

Ym mis Medi 2016, roedd gofyniad i ddosbarth trochi uwchradd gael ei sefydlu i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Bro Edern ond ddim o gefndir addysg gynradd Cymraeg. Cafodd ei sefydlu i gyd-fynd â'r dosbarth cynradd, i alluogi rhannu adnoddau. Mae'r Cyngor yn bwriadu sefydlu darpariaeth drochi Gymraeg barhaol.

Bydd y gyfradd trosglwyddo targed ar gyfer y Ganolfan Drochi Gymraeg yn parhau ar 100% fodd bynnag; mae angen targedu disgyblion a allai ystyried y ddarpariaeth hon fel opsiwn ar gam cynharach, er enghraifft, cyn dechrau blwyddyn 6, yn lle ei adael tan y gwneir penderfyniad ar ysgol uwchradd. Cynigir rhaglenni trochi yng ngogledd-ddwyrain Cymru i ddisgyblion ym mlwyddyn 3 fel "cyfle euraidd" neu "cyfle olaf" i ddod yn ddwyieithog, a rhennir holl fanteision dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng Cymraeg gyda hwy. Bydd y Cyngor yn ymdrechu i sicrhau cyfradd trosglwyddo 100% ac yn olrhain llwyddiant y grŵp blwyddyn 7 presennol.

**Canlyniad 3 a 4: Mwy o fyfyrwyr rhwng 14 a 16 oed yn astudio am gymwysterau yn Gymraeg a mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau yn Gymraeg mewn ysgolion, colegau a dysgu yn y gweithle**

**3.1 Cymwysterau TGAU**

***Ymatebion o'r Ymgynghoriad***

> *Cafwyd sylwadau na all Glantaf gyflawni 100% ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf oherwydd bod ganddi uned arbennig i blant ag anableddau difrifol na all wneud TGAU.*

**Arfarniad o Safbwyntiau**

Mae'r targed ar gyfer 2020 wedi'i osod ar 100%, fodd bynnag, cydnabyddir na fydd yn cynnwys y plant hynny â datganiadau penodol o angen addysgol arbennig. Mae hyn wedi'i nodi ar dudalen 17.

***3.2 Cymraeg Ail Iaith***

***Ymatebion o'r Ymgynghoriad***

*Nododd un ymatebwr fod y cwricwlwm Cymraeg ail iaith yn newid a bod angen i'r targed Cymraeg ail iaith ar gyfer 2020 gael ei adolygu. Amlygodd un arall nad oedd y strategaeth yn cynnwys unrhyw ddata am gyraeddiadau Saesneg disgyblion mewn ysgolion Cymraeg.*

**Arfarniad o Safbwyntiau**

Mae Llywodraeth Cymru yn newid y ffordd y caiff cymwysterau Cymraeg ail iaith eu cyrchu. Caiff y cymwysterau Cymraeg ail iaith presennol, cwrs llawn a chwrs byr, eu hasesu am y tro olaf yn yr haf 2018. Bydd cymhwyster cwrs byr Cymraeg ail iaith yn cael ei gydredeg gyda'r cwrs llawn Cymraeg ail iaith o fis Medi 2017 a dim ond un cymhwyster Cymraeg ail iaith fydd ar gael o fis Medi 2018.

Ceir rhagor o wybodaeth am y newidiadau ar y ddolen ganlynol: http://qualificationswales.org/development/changes-to-gcse-welsh-second-language/?lang=en&. Mae'r strategaeth wedi'i diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

Mewn ysgolion Cymraeg, cyflwynir yr iaith Saesneg ym mlwyddyn 3 a chaiff ei asesu gydol Cyfnod Allweddol 2. Mae hyn yn parhau i'r cyfnod uwchradd lle caiff cynnydd a chanlyniadau disgyblion yn Saesneg eu holrhain a'u gwerthuso ynghyd â phynciau craidd eraill - Mathemateg a Gwyddoniaeth. Mae'r WESP yn strategaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg.

**Canlyniad 5: Mwy o fyfyrwyr â sgiliau datblygedig yn y Gymraeg**

***Ymatebion o'r Ymgynghoriad***

***5.1 Darpariaeth Lefel A***

***Ymatebion o'r Ymgynghoriad***

*Nododd ymatebwyr duedd cenedlaethol o ostyngiad yn y nifer sy'n gwneud Lefel A ac o'r herwydd mynegwyd safbwyntiau bod y nod o gynyddu'r niferoedd sy'n gwneud Lefel A Cymraeg iaith gyntaf (fel canran o niferoedd TGAU Cymraeg iaith gyntaf ddwy flynedd yn gynharach) i 6% erbyn 2020 yn rhy uchelgeisiol oherwydd y niferoedd gostyngol sy'n dewis dilyn Lefel A Cymraeg iaith gyntaf. Cafodd rôl darparwyr Addysg Bellach ei chwestiynu mewn perthynas â helpu'r ddinas i gyflawni targedau Lefel A gan amlygu'r angen i hyrwyddo cyfleoedd i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ymysg disgyblion sy'n dewis gyrfaoedd.*

**Arfarniad o Safbwyntiau**

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y gostyngiad o ran myfyrwyr lefel A Cymraeg iaith gyntaf yn ffenomen cenedlaethol a bydd yn gweithio gyda Chonsortiwm Canol y De a Llywodraeth Cymru ar strategaethau i wrthdroi'r tuedd hwn. Yn dilyn adborth o'r ymgynghoriad mae'r targed lefel A yn 2020 wedi'i leihau o 6% i 5.5% (gweler Atodiad D).

Bydd yr ysgolion uwchradd yn ymchwilio pam nad yw lefel A Cymraeg iaith gyntaf yn ddewis deniadol ymysg eu myfyrwyr ac yn darparu canlyniadau'r ymchwil hwn i'r Cyngor i helpu gyda nodi camau pellach y gellid eu cymryd i gynyddu'r garfan sy'n dewis Cymraeg iaith gyntaf yn Lefel A.

Mae Consortiwm Canol y De yn darparu data i fesur canlyniad 3 a 4 i'r holl awdurdodau lleol. Mae'r data hwn yn ymwneud ag ysgolion sydd â blwyddyn 13, i ddarparu cysondeb rhanbarthol, wedi'i ddefnyddio i gyfrifo'r mesurau hyn.

***5.2 Darpariaeth allgyrsiol***

***Ymatebion o'r Ymgynghoriad***

*Mae'r mwyafrif o ddisgyblion mewn addysg Gymraeg yn dod o gartrefi nad ydynt yn siarad Cymraeg felly mae'n hanfodol bod y gwasanaethau allgyrsiol yn rhan allweddol o Strategaeth Addysg Gymraeg Caerdydd. Dylid rhoi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion o bob oed i ymarfer siarad Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth mewn ysgolion Cymraeg a Saesneg, yn ogystal â chynyddu darpariaeth ffurfiol ac anffurfiol mewn ysgolion Cymraeg a Saesneg.*

**Arfarniad o Safbwyntiau**

Mae'r Cyngor eisoes yn gweithio mewn partneriaeth gyda nifer o sefydliadau gan gynnwys Menter Caerdydd i hyrwyddo ac ehangu'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy gynyddu cyfleoedd i gymunedau gyrchu gweithgareddau allgyrsiol, clybiau gwyliau a gofal ar ôl ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r gwasanaethau a ddarperir mewn partneriaeth â'r sefydliadau hyn yn benodol i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cyfle i ymarfer defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth / gweithle mewn ystod o leoliadau ledled y ddinas. Fodd bynnag, mae pob ysgol yn arwain ar weithgareddau allgyrsiol a bydd angen cysylltu â'u partneriaid i sicrhau y gellir darparu ystod eang o weithgareddau allgyrsiol.

Fodd bynnag, y nod yw datblygu hyn i ddarparu strategaeth ehangach sy'n fwy perthynol i'r 'Siarter Iaith Gymraeg' a ddatblygwyd gan Gwynedd yn 2014. Mae gan y Siarter Iaith Gymraeg amcan cyffredinol o ddarparu fframwaith y gellir ei ddefnyddio i hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destun cymdeithasol gan blant mewn ysgolion

Cymraeg. Drwy ddathlu'r defnydd o'r Gymraeg ar iard yr ysgol, gyda rhieni ac yn cyd-destun ehangach o'r gymuned ysgol, y nod yw datblygu nifer y plant sy'n siarad Cymraeg yn ddyddiol. Mae'r Siarter yn seiliedig ar yr egwyddor y gall pob ysgol unigol osod ei gweledigaeth heriol a chyraeddadwy ei hun mewn cysylltiad â hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae hyn yn cydnabod y gall amgylchiadau amrywio o ysgol i ysgol ac mae'n rhoi cyfle i bob ysgol weithredu ei rhaglen ei hun a chyflawni ei gweledigaeth ei hun.

Mae fersiwn Ail Iaith ar gyfer ysgolion Saesneg sy'n dilyn yr un canllawiau ac wedi'i dylunio gan ERW a elwir Cymraeg Campus, ond ar hyn o bryd nid yw'n cael ei chefnogi gan Llywodraeth Cymru. Bydd Consortiwm Canol y De yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ymchwilio p'un a yw hwn yn broject y gellid ei ailadrodd gydag ardal Consortiwm Canol y De oherwydd bydd angen i randdeiliaid gefnogi ei ddatblygiad.

Mae Cyngor Dinas Caerdydd yn ymwybodol bod Prifysgol Caerdydd yn cynnig darpariaeth Cymraeg i Oedolion Caerdydd (https://welshforadults.cardiff.ac.uk/cy) sy'n cynnwys cyrsiau 'Cymraeg i'r Teulu' ac mae Prifysgol Caerdydd wedi mynegi diddordeb i ddatblygu partneriaethau ysgolion ymhellach.

### 5.3 Sector Addysg Uwch

*Gwnaed ceisiadau i ddatblygu cyfleoedd gyda'r sector Addysg Uwch, yn enwedig gyda Phrifysgol Caerdydd a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, i hyrwyddo llwybrau dysgu yn y sector Addysg Uwch.*

**Arfarniad o Safbwyntiau**

Mae Prifysgol Caerdydd wedi amlygu yr hoffent ffurfio partneriaethau pellach gyda'r Ysgolion, y Cyngor a Chonsortiwm Canol y De i ddatblygu cynlluniau i gynyddu niferoedd ymhellach, gan gynnwys cynnig gweithdai mewn ysgolion a chynadleddau / diwrnodau astudio ar gampws y Brifysgol. Wrth i'r boblogaeth gynyddol barhau drwy'r continwm iaith Gymraeg, bydd partneriaid yn adolygu eu rôl o ran datblygu darpariaeth addas.

### Canlyniad 6: Darpariaeth Gymraeg i ddysgwyr ag ADY

***Ymatebion o'r Ymgynghoriad***

> *Codwyd ystod o faterion yn gysylltiedig â darpariaeth ADY a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys BESD, Anogaeth ac ASD. Roedd y themâu cyffredin a nodwyd yn cynnwys niferoedd uwch o fyfyrwyr ag anghenion BESD yn y sector cyfrwng Cymraeg, bod angen darpariaeth BESD yn ychwanegol i'r ddarpariaeth drws troi, bod angen darpariaeth BESD ar lefel uwchradd, bod angen dosbarthiadau anogaeth ar gyfer disgyblion, lleoliad parhaol ar gyfer darpariaeth BESD yn ogystal â darpariaeth ASD a darpariaeth SRB ar gyfer anghenion dysgu.*
>
> *Gofynnwyd cwestiynau ynghylch tegwch a pharedd ADY yn y sector cyfrwng Cymraeg o gymharu â'r sector Saesneg a nifer y disgyblion sy'n gadael addysg Gymraeg oherwydd ADY. Fe wnaeth safbwynt cyffredin amlygu'r angen i gynnwys rhanddeiliaid mewn trafodaethau a chynlluniau cyn gwneud penderfyniadau. Cafwyd sylwadau hefyd a nododd yr angen am fwy o athrawon arbenigol a'r angen am adolygiad o'r sector i gael darlun cyflawn ac opsiynau ar gyfer ymyraethau priodol.*

**Arfarniad o Safbwyntiau**

Yn y sectorau Cymraeg a Saesneg, mae'r awdurdod lleol yn cymryd camau i ddatblygu darpariaeth mewn ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg. Mae'r lefel AAA mewn ysgolion Cymraeg yn llawer is na mewn ysgolion Saesneg ac mae hyn yn atebol am y patrwm darpariaeth gwahanol. Wrth i'r sector dyfu, mae'n amlwg bod y lefel AAA yn codi, a bod hyn yn cyfiawnhau datblygu lleoedd arbenigol ychwanegol. Mae lleoedd wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae ymrwymiad i dyfiant pellach dros y 3-4 blynedd nesaf.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn cymryd camau i nodi p'un a yw disgyblion ag AAA yn trosglwyddo o addysg Gymraeg i addysg Saesneg ac yn ceisio gwybodaeth gan rieni o ran eu rhesymau. Bydd unrhyw faterion a nodir yn sail i gynllunio a chefnogaeth yn y dyfodol i ddisgyblion yn y sector Cymraeg.

Bydd yr awdurdod lleol yn cynnal adolygiad o ddarpariaeth SRB cynradd ar gyfer anghenion dysgu mewn partneriaeth â'r ysgolion Cymraeg ac yn ceisio safbwyntiau rhieni fel sail i unrhyw newidiadau a allai fod eu hangen i gynyddu nifer y lleoedd a lenwir. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n agos gydag Ysgol Glantaf i ddatblygu lleoliad SRB uwchradd ar gyfer anghenion dysgu ac i sicrhau y bydd hyn yn ddigonol ar gyfer twf yn y dyfodol.

Mae gweithgor o benaethiaid Cymraeg, Cydlynwyr AAA a staff arbenigol wedi'i sefydlu i adolygu darpariaeth ADY cyfredol yn ogystal â data disgyblion gyda golwg ar ddatblygu cynllun datblygu darpariaeth cytunedig ar gyfer y sector Cymraeg. Mae ymarfer mapio anghenion yn cael ei gynnal a fydd yn sail i gynllunio ar gyfer darpariaeth arbenigol yn y dyfodol, ar gyfer BESD ac ASD. Caiff Cynllun Gweithredu ADY ei ddatblygu allan o'r gweithgor hwn, gyda mewnbwn gan randdeiliaid.

Mae capasiti siarad Cymraeg yn y mwyafrif o dimau arbenigol ac mae hyn yn gymesur â'r lefel o angen yn y sector Cymraeg. Lle bo bylchau, mae hyn oherwydd eu bod wedi colli staff sy'n siarad Cymraeg trwy ymddeoliadau ac ati. Lle bo diffyg athrawon sy'n siarad Cymraeg gyda chymwysterau arbenigol, caiff swyddi eu hysbysebu fel cyfleoedd hyfforddi i athrawon sy'n siarad Cymraeg sy'n dymuno datblygu eu gyrfaoedd fel arbenigwyr. Gwneir gwaith pellach i archwilio anghenion cyfredol ac arfaethedig, yn ogystal â sgiliau staff ac athrawon, i gynllunio ar gyfer datblygu'r gweithlu yn y dyfodol mewn partneriaeth â'r ysgolion.

Caiff partneriaethau rhanbarthol eu hadeiladu er mwyn rhannu arfer da ac arbenigaeth ac i ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer cydweithredu.

**Canlyniad 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygu proffesiynol parhaus**

## 7.1 Rolau Arwain

***Ymatebion o'r Ymgynghoriad***

*Fe wnaeth ymatebwyr gydnabod er mwyn cynyddu addysg Gymraeg mae'n arbennig o bwysig bod Consortiwm Canol y De yn hyrwyddo'r "rhaglenni arweinwyr ysbrydoledig ag arweinwyr lefel canol a Dirprwy Athrawon mewn ysgolion Cymraeg" ac yn datblygu potensial sgiliau arweinwyr y dyfodol. Mae sicrhau cyflenwad o benaethiaid ar gyfer y dyfodol yn flaenoriaeth allweddol.*

**Arfarniad o Safbwyntiau**

Mae Cyngor Dinas Caerdydd yn derbyn bod datblygu arweinyddiaeth yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer y dyfodol sydd wedi arwain at gynnwys arweinyddiaeth Gymraeg yng Nghanlyniad 7. Hefyd, mae Melin Gruffydd yn cynnal cwrs arweinwyr canol ar gyfer Ysgolion Cynradd Cymraeg. Mae holl Benaethiaid Ysgolion Uwchradd wedi dod ynghyd i greu 'Gyda'n Gilydd', fel rhan o'r rhaglen gefnogaeth maen nhw wedi creu cwrs arweinwyr canol ar gyfer arweinwyr adran a Darpar Uwch Arweinwyr. Mae'r ddau uchod yn rhai Cymraeg.

O fewn y Consortiwm mae peilot arweinyddiaeth newydd yn cael ei gynnal ar gyfer Dirprwy Benaethiaid, 'Gwella Sgiliau Arweinyddiaeth ar gyfer Dirprwy Athrawon'. Nid yw hwn trwy gyfrwng y Gymraeg ond bydd ar agor i'r holl ysgolion ar ôl llwyddiant y peilot. Mae'r rhaglen NPQH yn cael ei gynnal ac rydym yn ymwybodol o'r angen i ddatblygu capasiti arweinyddiaeth ymhellach mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg.

## 7.2 Ymarferwyr Addysgu

***Ymatebion o'r Ymgynghoriad***

*Mae angen datblygu cyrsiau cyfrwng Cymraeg i athrawon, tynnwyd sylw arbennig i'r Cynllun Sabothol Cenedlaethol ar gyfer Hyfforddiant Iaith Gymraeg. Ariennir y cynllun hwn gan Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer yr ymarferwyr all addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog ac i gynnig cyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus arbenigol mewn addysg. Mae'n cynnig cyfle i ymarferwyr presennol mewn addysg i ddysgu Cymraeg drwy fanteisio ar gyrsiau sabothol sydd ar gael yn ogystal â chynnig cyrsiau gloywi dwys i'r athrawon hynny sy'n fodlon trosglwyddo i addysg Gymraeg.*

*Dylai'r holl gyd-ymarferwyr newydd i'r gweithlu allu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg – pa bynnag sefydliad addysgol y byddant yn gweithio ynddo – i sicrhau defnydd ehangach o'r Gymraeg fel ffordd o gyfathrebu mewn ysgolion Saesneg.*

**Arfarniad o Safbwyntiau**

Mae Consortiwm Canol y De yn creu Cwrs Mentora ITE a Chwrs GTP gyda gwahanol Brifysgolion ac mae gan y ddau ffocws Cymraeg.

Cynhelir y cynllun Sabothol gan Brifysgol Caerdydd a bydd y cyrsiau Sabothol yn cefnogi ymarferwyr sydd eisoes mewn ysgolion megis Cynorthwywyr Addysgu ac Athrawon. Mae'r cyrsiau am ddim ac mae Llywodraeth Cymru yn talu am gostau cyflenwi yn ogystal â chostau teithio. Darperir yr hyfforddiant yng Nghaerdydd: http://www.cardiff.ac.uk/cy/welsh/courses/professional-courses-and-welsh-for-adults/sabbatical-scheme. Mae'r Brifysgol wedi croesawu nifer o ymarferwyr ar y cyrsiau ac

maen nhw'n awyddus i weithio gyda'r Cyngor a Chonsortiwm Canol y De i hyrwyddo'r cynllun cyffrous hwn ymhellach.

### 7.3 Cynnwys Myfyrwyr

***Ymatebion o'r Ymgynghoriad***

*Mae Prifysgol Caerdydd yn datblygu darpariaeth israddedigion newydd wrth gaffael ac addysgu Cymraeg, a fydd yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr dreulio cyfnod ar leoliad yn yr ysgol (cynradd neu uwchradd). Nid bwriad y modiwl yw darparu hyfforddiant ffurfiol fel athrawon, ond i edrych ar y system addysg Gymraeg o bersbectif academaidd a'r nod yw eu hannog i ddatblygu syniadau gwreiddiol yn yr ysgolion. Hoffai Prifysgol Caerdydd gydweithredu ag ysgolion Cymraeg ac athrawon Cymraeg yn y sector Saesneg.*

**Arfarniad o Safbwyntiau**

Mae Cyngor Dinas Caerdydd yn cydnabod y ddarpariaeth hon a byddai'r Awdurdod Lleol yn fodlon cydlynu trafodaethau rhwng y Brifysgol a'r Consortiwm i ddatblygu'r cynllun, os ystyrir bod hyn yn briodol.